OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2010 Rhif 1291 (Cy. 110)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) 2010

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)*

Mae Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (“Deddf 2006”) yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cynllun newydd ynghylch fetio a gwahardd i bobl sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion hyglwyf. Mae adran 13 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol bod gwiriad yn cael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw berson sy'n cael ei benodi i gorff llywodraethu sefydliad addysgol. Mae methu â gwneud gwiriad yn dramgwydd. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi, at ddibenion adran 13, y cyfnod y mae'n rhaid i'r gwiriad hwnnw gael ei wneud ynddo a'r swyddog priodol sy'n gyfrifol am ei wneud.

Gan hynny, y cyfnod rhagnodedig yw cyfnod sydd o fewn pedwar mis i’r dyddiad y cydsyniodd person a benodwyd i gorff llywodraethu sefydliad addysgol i’r swyddog priodol wneud gwiriad a darparu unrhyw wybodaeth sy’n ofynnol i wneud y gwiriad hwnnw i’r swyddog priodol. Y swyddog priodol ar gyfer ysgol annibynnol yw'r perchennog ac, ar gyfer sefydliad addysg bellach, y penadur. Mewn cysylltiad â phob sefydliad addysgol arall, prif swyddog addysg yr awdurdod lleol yw'r swyddog priodol.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2010 Rhif 1291 (Cy. 110)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Ebrill 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *20 Ebrill 2010* |
| *Yn dod i rym* | *26 Gorffennaf 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 13, 56(1), 60 a 61(5) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 26 Gorffennaf 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;

ystyr "penadur" ("*principal*") yw'r person a benodwyd yn benadur sefydliad addysg bellach;

mae i "perchennog" yr ystyr a roddir i "*proprietor*" gan adran 579 o Ddeddf Addysg 1996(**2**);

(**1**) 2006 p.47.

(**2**) Diwygiwyd gan baragraff 183(a)(iii) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31) a chan O.S. 2005/2913 (Cy.210).

ystyr “prif swyddog addysg” (“*chief education officer*”) yw'r person a benodwyd yn unol ag adran 532 o Ddeddf Addysg 1996(**1**);

ystyr “sefydliad addysg bellach” (“*further education institution*”) yw sefydliad yn y sector addysg bellach o fewn ystyr adran 91 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**2**) ac sydd fel arall yn sefydliad addysgol o fewn ystyr adran 8(5) o Ddeddf 2006;

ystyr “unigolyn cyfrifol” *(“responsible individual”*)—

(i) unigolyn a chanddo reolaeth gyffredinol dros reoli’r ysgol o ddydd i ddydd; neu

(ii) pan fo’r rheolaeth honno yn cael ei rhannu rhwng dau neu ragor o unigolion, yr un ohonynt a enwebir gan y perchennog i fod yn unigolyn cyfrifol;

mae i “ysgol” yr ystyr a roddir i “*school*” gan adran 4 o Ddeddf Addysg 1996(**3**); ac

ystyr “ysgol annibynnol” (“*independent school*”) yw ysgol nas cynhelir gan yr awdurdod lleol ac sydd fel arall yn sefydliad addysgol o fewn ystyr adran 8(5) o Ddeddf 2006.

## Cyfnod Rhagnodedig

**3.** At ddibenion adran 13(1) o Ddeddf 2006 y cyfnod rhagnodedig yw cyfnod sydd o fewn pedwar mis i'r dyddiad y gwnaeth person a benodwyd i gorff llywodraethu sefydliad addysgol—

(a) cydsynio i’r swyddog priodol wneud gwiriad yn unol ag adran 15(2)(a) o Ddeddf 2006; a

(b) darparu unrhyw wybodaeth sy’n ofynnol i wneud y gwiriad hwnnw i’r swyddog priodol.

## Swyddog Priodol

**4.**—(1) At ddibenion adran 13(5) o Ddeddf 2006, y swyddog priodol—

(a) mewn perthynas ag ysgol annibynnol, yw ei hunigolyn cyfrifol;

---

(**1**) 1996 p.56.

(**2**) 1992 p.13.

(**3**) Amnewidiwyd is-adran (1) gan adran 51 o Ddeddf Addysg 1997 (p.44). Diwygiwyd is-adran (1) gan adran 95(1) a (2) o Ddeddf Gofal Plant 2006 (p.21) a chan Ran 3 o Atodlen 22 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32). Mewnosodwyd is-adran (1A) gan adran 95(1) a (3) o Ddeddf Gofal Plant 2006. Diwygiwyd is-adran (2) gan baragraff 10(a) a (b) o Atodlen 7 ac Atodlen 8 i Ddeddf Addysg 1997.

(b) mewn perthynas â sefydliad addysg bellach, yw ei benadur; ac

(c) mewn perthynas ag unrhyw sefydliadau addysgol eraill, yw prif swyddog addysg yr awdurdod lleol lle mae'r sefydliad addysgol wedi'i leoli.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

19 Ebrill 2010